

A YDYCH YN MEDDWL AM FOD YN GYSWLLT UNDEB I UNDEB Y GWEITHWYR CYMDEITHASOL (SWU)?

Mae bod yn Cyswllt Undeb SWU yn rhan hanfodol o'n tîm!

Mae model SWU o ddatblygu rhwydwaith o Gysylltiadau Undeb yn newid o'r dull traddodiadol o gael siop-stiwardiaid. Mae'n sicrhau bod trafodaethau am gyflogaeth yn cael eu cyfyngu i Swyddogion cyflogedig Undeb Llafur SWU a BASW a'ch cyflogwr. Bydd hyn yn lleihau'r posibilrwydd o densiynau rhwng staff a'r rheolwyr yn y gweithle ac yn sicrhau bod gennych lai o gyfrifoldebau ffurfiol na'r siop-stiward traddodiadol.

Fel Cyswllt Undeb SWU, byddwch yn hybu ac yn annog aelodaeth o'r undeb a chi, fel arfer, bydd y pwynt cyswllt cyntaf yr undeb i aelodau newydd a'r rhai sydd eisoes yn aelodau yn eich gweithle. Byddwch hefyd yn bwynt cyswllt hanfodol gyda swyddogion SWU i alluogi'r cyfnewid o wybodaeth a syniadau diweddaraf. Caiff pob Swyddog Cyswllt SWU cefnogaeth ag arweiniad gan Drefnydd Undeb Llafur a fydd yn cyfarfod gyda chi yn rheolaidd i sicrhau bod SWU yn ddolen gyswllt gryf gyda'n Cysylltiadau Undeb a'n haelodau.

Bydd pob Cyswllt Undeb yn cael ad-daliad o'u treuliau parod, mynediad at Hyfforddiant Ffederasiwn Cyffredinol Undebau Llafur (GFTU) yn rhad ac am ddim a mynediad at hyfforddiant datblygiad proffesiynol ar-lein gan Dr Neil Thompson (Rhaglen Datblygu Broffesiynol Avenue).

O fod yn Cyswllt Undeb SWU cewch fynediad at :-

- *Sesiynau mentora rheolaidd gyda Threfnydd Undeb Llafur SWU*
- *Gohebiaeth a diweddariadau rheolaidd gan SWU*
- *Mynediad at hyfforddiant, cefnogaeth a gwybodaeth SWU*
- *Cyfle i recriwtio ac annog aelodau newydd yn y gweithle a thu hwnt*
- *Cyfle i hybu ac i fod yn rhan o'n hymgyrchoedd*
- *Cyfle i fod yn rhan o ddigwyddiadau, raliâu a gwrthdystiadau a fynychir gan SWU*

Nod SWU yn y dyfodol yw cael o leiaf un Cyswllt Undeb ym mhob gweithle neu adran fawr ac rydym angen eich cefnogaeth i wireddu hyn.

Fodd bynnag, nid ydym yn cyfyngu CU i'r gweithle ac felly rydym yn croesawu aelodau sydd wedi ymddeol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol, aelodau di-waith a gweithwyr cymdeithasol mewn rolau eraill (hy adfocatiaeth, gofalwyr, staff asiantaethau).

Mae bod yn aelod o SWU yn eich galluogi i ymgeisio i wneud y gwaith pwysig yma

UNDEB Y GWEITHWYR CYMDEITHASOL

Dyma pwy ydym:

Yr unig Undeb Llafur yn y DU a benodwyd ar gyfer, ac sy'n cael ei redeg gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys a chofrestredig

- Dewiswch ymaelodi ag **SWU** am y ffi isaf pan fyddwch yn ymuno a **BASW**
- Dau am bris un (llai i fyfyrwyr), **aelodaeth o Undeb Llafur a Chymdeithas Broffesiynol**
- Rydym yn cynnig system dyletswydd o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am i 4.30pm
- Rhan o gymundod cryf lle fedrwch **CHI** fod yn weithgar a gwneud newid
- Mynediad at arbenigwyr efo cynrychiolaeth mewn Cynghorau Rheoleiddio'r DU
- Cyngor i aelodau o'r diwrnod cyntaf o fod yn aelod*
- Derbyn e-fwletinau misol

* Mae rhai amodau yn bodoli, yn cynnwys materion cyn-ymaelodi a dim cynrychiolaeth am y tri mis cyntaf o fod yn aelod.

Os oes gennych ddiddordeb i fod yn weithgar ac i fod yn rhan o SWU yna cysylltwch

â: Carol Reid, Y Trefnydd Cenedlaethol

Ffôn: 07375 496315 • E-bost: carol.reid@swu-union.org.uk

Wellesley House, Birmingham, B2 5PP

Twitter: @SWU_UK • Facebook.com/socialworkersunionuk/ • www.swu-union.org.uk

